Polisi Ansawdd

Mae Tîm Gwasanaethau 24/7 Cyngor Caerdydd yn ymrwymedig i roi gwasanaeth effeithlon, cost-effeithiol o safon uchel sy'n bodloni anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid a'r gymuned a wasanaethwn.

Rydym yn ymrwymedig i roi gwasanaethau'n unol â'r Safonau Teleofal a'r Safonau ISO9001-2015 perthnasol.

Byddwn yn ymgynghori'n helaeth â'n cwsmeriaid, partïon â diddordeb a staff i nodi'r materion mewnol ac allanol ac yn gweithio iddynt o fewn cyfyngiadau deddfwriaethol ac adnoddau a byddwn yn ceisio gwella'n barhaus ansawdd, cwmpas a natur ein gwasanaethau, gan wella ymwybyddiaeth brand, enw da a refeniw.

Rydym yn cydnabod bod pob cyflogai, yn ystod ei ddiwrnod gwaith, yn gwneud cyfraniad allweddol at waith cyffredinol Gwasanaethau'r Cyngor, p'un ai'n fewnol neu'n allanol, a byddwn yn eu hannog gyfrannu at baratoi, gweithredu a gwerthuso gweithgareddau gwella a hefyd at eu datblygiad personol.

Byddwn yn cyhoeddi ein polisi ansawdd ar ein gwefan Gwella Caerdydd a bydd pob rheolwr yn gyfrifol am atgyfnerthu diwylliant o ragoriaeth ymhlith pobl y sefydliad.

Rydym yn ymrwymedig i wella'n System Rheoli Ansawdd yn barhaus.

Caiff y polisi ansawdd ei adolygu bob blwyddyn fel rhan o'r adolygiad rheoli i sicrhau ei berthnasedd parhaus i'r tîm, y gyfarwyddiaeth ac amcanion strategol y Cyngor.

Lesley Ironfield

Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau 24/7

Cyngor Caerdydd

Dyddiad: Hydref 2020/2021